



Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Cynllun Cydraddoldeb Strategol Adroddiad Blynyddol 2017-18

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	2 – 3
2.	Adnabod a Chasglu Gwybodaeth Berthnasol	3 - 4
3.	Defnyddio'r wybodaeth i gwrdd â'r Dyletswyddau Cyffredinol a'r rhai Penodol i Gymru	4 – 5
4.	Beth a Gyflawnwyd	6 – 16
5.	Hyfforddiant	17
6.	Asesiadau Effaith Cydraddoldeb	17 – 19
7.	Gwybodaeth Cyflogaeth	19 – 22

1. Cyflwyniad

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi cyflwyno dyletswydd gyffredinol ar y sector cyhoeddus. Mae'n ofynnol ar awdurdodau cyhoeddus i roi sylw dyledus i'r angen i:

1. Cael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y ddeddf.
2. Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ymysg pobl sy'n meddu ar un o'r nodweddion sydd wedi'u diogelu a'r rhai nad ydynt.
3. Meithrin perthynas dda ymysg pobl sy'n meddu ar un o'r nodweddion sydd wedi'u diogelu a'r rhai nad ydynt.

Pwy a ddiogelir o dan y Ddeddf?

Mae'r ddeddf yn cyflwyno rhestr o nodweddion sydd i'w diogelu yn lle amryw agweddau cydraddoldeb. Mae'r carfanau hynny i'w diogelu trwy gyfrwng dyletswydd gyffredinol a dyletswyddau penodol y ddeddf.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn ymwneud â'r nodweddion isod:

- Oedran
- Newid rhyw
- Rhyw
- Tras – gan gynnwys tarddiad ethnig / cenedlaethol, lliw a chenedl
- Anableddau
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Tueddfryd rhywiol
- Crefydd neu gred

Mae'n ymwneud â phriodasau a phartneriaethau sifil hefyd, ond dim ond ynglŷn â rhoi ystyriaeth briodol i'r angen i gael gwared ar anffafiaeth.

Dyletswyddau Penodol

Yn ychwanegol i'r ddyletswydd gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno dyletswyddau penodol i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r dyletswyddau penodol hyn wedi cael eu hamlinellu yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) Rheoliadau 2011.

Mae'r dyletswyddau penodol yng Nghymru yn ymdrin â:

- Amcanion
- Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol
- Ymgysylltu
- Asesu effaith
- Gwybodaeth am gydraddoldeb
- Gwybodaeth am gyflogaeth
- Gwahaniaethau tâl

- Hyfforddiant staff
- Pwrcasu
- Adrodd blynyddol
- Cyhoeddi
- Adroddiad Gweinidog Cymru
- Adolygu
- Hygyrchedd

Fe ddaeth y ddyletswydd gyffredinol yn ogystal â'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol i Gymru i rym ar 6 Ebrill 2011. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi gwybod am y cynnydd a wnaeth yr Awdurdod o ran cydymffurfio â'r gofynion statudol hyn.

2. Adnabod a Chasglu Gwybodaeth Berthnasol

Gwybodaeth Ystadegol

Mae'r Awdurdod wedi cyhoeddi data cyfrifiad 2011 ar gyfer trigolion y Parc Cenedlaethol ar ei wefan. Mae'r data ar gyfer y boblogaeth amcangyfrifedig o 25,702 wedi cael ei rannu i amrywiol gategoriâu gan gynnwys proffiliau wardiau, gweithgaredd economaidd, statws tai, statws teuluol a sgiliau iaith Gymraeg. Mae data'r cyfrifiad yn darparu darlun o fywyd o fewn cymunedau unigol yn y Parc yn ogystal â darparu gwybodaeth leol werthfawr. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi na fydd data'r cyfrifiad yn gallu darparu gwybodaeth ar bob nodwedd a ddiogelir.

Ym mis Rhagfyr 2016, cyhoeddwyd 'A yw Cymru'n Decach?' gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r dystiolaeth ar faint o welliant a welwyd o ran cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru ers 2010. Hwn yw'r brif dystiolaeth y mae Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru yn dibynnu arno i asesu a yw ein Hamcanion Cydraddoldeb ar y cyd yn cael effaith gadarnhaol ehangach ar draws Gogledd Cymru.

Gwybodaeth ac Ymglymiad

Bob blwyddyn treulir rhwng 6 a 10 miliwn o ddyddiau ymwelwyr yn Eryri. Mae arolwg ymwelwyr blynyddol yn cael ei gynnal drwy wefan yr awdurdod sy'n darparu gwybodaeth werthfawr, nid yn unig ar ba fath o bobl sy'n ymweld ag Eryri, ond am eu profiadau tra maen nhw yma.

Yn ogystal â'r wybodaeth hon, mae holiaduron lleol llai eu maint yn cael eu cwblhau gan y staff ac mae data ymwelwyr yn cael ei ddefnyddio o wahanol ffynonellau megis Visit Britain ac ati, er mwyn galluogi'r awdurdod i gael darlun ehangach o'r bobl sy'n ymweld â'r ardal.

Yn ogystal â chael gwybodaeth uniongyrchol drwy holiaduron ac arolygon, mae'r Awdurdod yn parhau i ymwneud yn rheolaidd ag ystod eang o randdeiliaid drwy Fforwm Cydraddoldeb yr Awdurdod, Grwpiau Mynediad y Gogledd a'r De, cynghorau

tref a chymuned, asiantau cynllunio, gweithgareddau awyr agored a grwpiau hamdden, tirfeddianwyr ac ati.

Yn ystod y flwyddyn, aeth y gwaith o adolygu Cynllun Rheolaeth Parc Cenedlaethol newydd rhagddo, a bydd yn cael ei alw'n Cynllun Eryri. Bydd papur ymgynghorol cynhwysfawr yn cael ei gyhoeddi yn ystod yr haf 2018, a fydd yn adnabod manau blaenoriaeth allweddol a fydd yn cael eu datblygu ar gyfer y Cynllun.

Mae'r gwaith hefyd wedi bod yn parhau ar adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri. Mae'r amserlen wreiddiol a gytunwyd arni wedi llithro tua 6 mis, oherwydd cais am waith ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â'r ymgynghoriad cyfatebol a oedd ei angen hefo'r gwaith hwnnw, cyn gallu dechrau ar yr adolygiad. Fel canlyniad mi fydd y gwrandawriad cyhoeddus bellach yn digwydd yn ystod yr haf 2018.

3. Defnyddio'r Wybodaeth i gwrdd â'r Dyletswyddau Cyffredinol a'r rhai Penodol i Gymru

Er bod pob partner wedi ymrwymo i'r 6 amcan lefel uchaf, mae'r Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru wedi cytuno y dylai pawb gael yr hyblygrwydd i ddewis cyfrannu tuag at y meysydd gweithredu sy'n faes blaenoriaeth iddynt hwy yn unig ac sy'n seiliedig ar y gwasanaeth a ddarperir ganddynt.

Y 6 Amcan Cydraddoldeb ar gyfer Gogledd Cymru a fabwysiadwyd yw:

1. Ymdrin ag anghydraddoldebau mewn **lechyd**
2. Ymdrin ag canlyniadau anghyfartal mewn **Addysg** er mwyn cyflawni potensial yr unigolyn
3. Ymdrin ag anghydraddoldebau mewn **Cyflogaeth a Thâl**
4. Ymdrin ag anghydraddoldebau mewn **Diogelwch** personol
5. Ymdrin ag anghydraddoldebau o ran **Cynrychiolaeth a Llais**
6. Ymdrin ag anghydraddoldebau o ran **Mynediad** at wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd

Allan o'r 6 Amcanion Cydraddoldeb sydd wedi'u nodi uchod, mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu'r Amcanion Cydraddoldeb canlynol ynghyd â'r meysydd gweithredu sydd ynghlwm iddynt:

- A1. Ymdrin ag anghydraddoldebau mewn **lechyd**

Man Gweithredu: Mae'r nifer o bobl sydd mewn grwpiau a dangynrychiolir sy'n dewis ffordd iachach o fyw yn cynyddu

- A2. Ymdrin ag anghydraddoldebau mewn **Addysg** er mwyn cyflawni potensial yr unigolun
- Man Gweithredu: Bwlch cyflawniad addysgol rhwng y gwahanol grwpiau yn gostwng
- A3. Ymdrin ag anghydraddoldebau mewn **Cyflogaeth a Thâl**
- Man Gweithredu: Adnabyddir ac eir i'r afael ag anghydraddoldebau mewn recriwtio, dargadwad (cadw staff), hyfforddiant a phrosesau dyrchafu
- Man Gweithredu: Bydd unrhyw fylchau mewn tâl rhwng nodweddion a ddiogelir yn cael eu hadnabod ac eir i'r afael â hwy
- A4. Ymdrin ag anghydraddoldebau mewn **Diogelwch** personol
- Man Gweithredu: Bydd adrodd ar droseddau casineb ac aflonyddwch yn cynyddu a bydd camau yn cael eu cymryd i leihau'r digwyddiadau o droseddau casineb ac aflonyddwch
- A5. Ymdrin ag anghydraddoldebau mewn **Cynrychiolaeth a Llais**
- Man Gweithredu: Bydd cyrff sy'n gwneud penderfyniadau yn dod yn fwy cynrychiadol o'r cymunedau a wasanaethir
- A6. Ymdrin ag anghydraddoldebau mewn **Mynediad** at wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd
- Man Gweithredu: Bydd mynediad at wybodaeth a chyfathrebu ynghyd â phrofiad y cwsmer yn gwella
- Man Gweithredu: Bydd mynediad corfforol at wasanaethau, trafndiaeth, yr amgylchedd adeiledig a mannau agored yn gwella

4. Beth a Gyflawnwyd

Amcan Un: Ymdrin ag anghydraddoldebau mewn **lechyd**

Man Gweithredu: Mae'r nifer o bobl sydd mewn grwpiau a dangynrychiolir sy'n dewis ffordd iachach o fyw yn cynyddu

Prosiect / Menter / Gweithred	Amserlen	Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y man gweithredu?	Nodweddion a Ddiogelir	Swyddog Arweiniol
Gwella mynediad i gefn gwlad drwy barhau â'r rhaglen o deithiau cerdded misol ar gyfer pobl â nam ar eu golwg. Annog mwy o wirfoddolwyr o bob oed i gymryd rhan.	Parhaus	Mae'r dystiolaeth yn awgrymu po fwyaf o waith integreiddio sy'n digwydd, y fwyaf o rwystrau sy'n cael eu goresgyn, a bod pobl yn fwy tebygol o dderbyn ei gilydd.	Anabledd Pwlb	Swyddog y Gymuned

Cynnydd / Diweddariad:

Ym mis Mai eleni dathlodd y rhaglen teithiau cerdded tywys 10 mlynedd ers eu sefydlu.

Mae cyfanswm o 26 o wirfoddolwyr wedi rhoi eu hamser dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r gwirfoddolwyr a mynychwr y teithiau cerdded yn gwerthfawrogi'r teithiau yn fawr. Mae gwirfoddolwyr yn adrodd eu bod nhw wedi datblygu gwell dealltwriaeth o'r rhwystrau a wynebir gan bobl sydd â nam ar eu golwg, tra bo'r mynychwyr yn gwerthfawrogi'r teithiau amrywiol yng nghefn gwlad agored sydd weithiau'n cynnwys tirwedd heriol. Mae pawb sy'n cymryd rhan wedi adrodd bod y teithiau cerdded erbyn hyn yn achlysur cymdeithasol ac mae cyfeillgarwch gadarn wedi datblygu yn y grŵp o ganlyniad.

Prosiect / Menter / Gweithred	Amserlen	Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y man gweithredu?	Nodweddion a Ddiogelir	Swyddog Arweiniol
Gwella mynediad i gefn gwlad drwy barhau i drefnu teithiau cerdded ar gyfer gwahanol grwpiau cymunedol,	Parhaus	Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gall awyr iach ac ymarfer corff gael effaith gadarnhaol ar bobl â phroblemau	Pawb	Swyddog y Gymuned

canolfannau a mudiadau cefnogi, i sicrhau fod eu haelodau yn elwa o fuddion cadarnhaol ymarfer corff a gweithgareddau yn yr awyr agored.		iechyd meddwl penodol. Yn ychwanegol, mae grwpiau eraill o bobl fregus yn gallu cael budd o gymryd rhan mewn gweithgareddau newydd, yn dysgu am y budd o fod yn yr awyr agored, a thrwy ddatblygu cyfeillgarwch newydd cadarnhaol.		
--	--	---	--	--

Cynnydd / Diweddariad:

Yn dilyn newid staff yn Hafal adferwyd y cysylltiad â nhw, ac o ganlyniad fe drefnwyd nifer o deithiau cerdded.

Hefyd, bu'r Awdurdod yn cynorthwyo Coed Actif Gwynedd mewn cyfres o weithgareddau mewn coedlannau, i annog cyfranogwyr i drïo gweithgareddau yn yr awyr agroed a chysylltu â natur. Yn ogystal â chyfranogwyr o Hafal (canolfan sy'n darparu cefnogaeth i unigolion gyda phroblemau iechyd meddwl difrifol), fe wnaeth unigolion o Gisda (sy'n cefnogi ac yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc) a Gorwelion (gwasanaeth i ferched sydd wedi cael profiad o drais yn y cartref) gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau oedd ar gael mewn coedlannau.

Bu cydweithio clos hefo ysbyty Alltwn - yn benodol gyda grŵp o bobl iau sy'n byw gyda dementia. Trefnwyd teithiau cerdded eithaf hawdd yn fisol. Yn ogystal, sicrhawyd nawdd grant er mwyn trefnu cyfres o weithdai yn Yr Ysgwrn gyda'r artist Luned Rhys Parri. Bydd y gwaith yn cael ei arddangos yn ysbyty Alltwn, Yr Ysgwrn ac yn yr oriel ym Mhlas Glyn y Weddw. Cynhyrchwyd ffilm 5 munud o'r prosiect o'r enw 'Gobaith Mawr y Gwanwyn'.

Prosiect / Menter / Gweithred	Amserlen	Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y man gweithredu?	Nodweddion a Ddiogelir	Swyddog Arweiniol
Ymgymryd ag Asesiad Effaith ar Iechyd yn sgil y newidiadau arfaethedig i Gynllun Datblygu Lleol Eryri. Mae asesiad o'r fath yn sicrhau bod	Fel rhan o'r broses o ymgymryd ag adolygiad byr o Gynllun Datblygu Lleol Eryri.	Mae'r cyswllt rhwng cynllunio ac iechyd wedi cael ei sefydlu ers cryn amser. Mae'r amgylchedd naturiol ac adeiladol yn ffactorau mawr mewn perthynas â iechyd a lles. Mae	Pawb	Pennaeth Polisi Cynllunio

ystyriaeth lawn yn cael ei roi i iechyd a lles mewn cynigion a pholisiau cynllunio.		hyn yn arbennig o bwysig mewn ardaloedd difreintiedig.		
---	--	--	--	--

Diweddariad / Cynnydd:

Ymgwymerwyd ag Aseiad Effaith Iechyd ar y newidiadau arfaethedig i Gynllun Datblygu Lleol Eryri a chynhaliwyd cyfnod o ymgynghori cyhoeddus, i sicrhau fod:

- cynigion datblygu yn y dyfodol yn gallu cefnogi cymunedau cryf, bywiog ac iach ac yn gallu helpu i greu amgylchedd byw iach sydd, yn lle mae'n bosib, yn ei gwneud hi'n hawdd i wneud ymarfer corff a chreu gofod a llefydd i gefnogi ymgysylltu cymunedol;
- y cynllun lleol yn hyrwyddo lles o ran iechyd a lles cymdeithasol a diwylliannol ac yn cefnogi lleihau anghydraddoldebau iechyd; a hefyd
- bod y cynllun lleol yn ystyried y strategaeth iechyd a lles lleol ac unrhyw strategaethau gwella iechyd eraill perthnasol yn yr ardal.

Prosiect / Menter / Gweithred	Amserlen	Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y man gweithredu?	Nodweddion a Ddiogelir	Swyddog Arweiniol
Datblygu perthynas waith gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol a phartneriaethau allweddol eraill er mwyn adnabod prosiectau ar gyfer hyrwyddo gweithgareddau iach yn yr awyr agored.	Parhaus	Mae rhagnodi cymdeithasol bellach yn rhywbeth sy'n digwydd fwy fwy, ac mae hynny'n digwydd achos fod tystiolaeth yn awgrymu y gall gweithgareddau ac ymarfer corff cymedrol neu ysgafn yn yr awyr agored wella iechyd a lles yn gyffredinol ar gyfer pobl sydd ag ystod o namau.	Anabledd Pawb	Pennaeth Wardeinio a Mynediad

Diweddariad / Cynnydd:

Mae'r holl lwybrau troed bellach wedi cael eu hail raddio i gyd fynd â'r cynllun graddio newydd, sy'n ei gwneud hi'n haws i bobl adnabod teithiau sy'n addas ar gyfer eu gallu / lefelau ffitrwydd hwy. Mae'r Swyddog Mynediad wedi bod yn gweithio gyda'r Swyddogion Dehongli i sicrhau fod yr holl deithiau sy'n cael eu hyrwyddo ar gael ar y wefan. Fodd bynnag, mae angen gwaith hyrwyddo pellach ar y llwybrau hyn yn y flwyddyn i ddod.

Mae'r Ymgyrch "Cael Gogledd Cymru i Symud", sydd wedi cael ei ddatblygu ar y cyd rhwng gwahanol sefydliadau i wella iechyd a lles y boblogaeth leol, trwy gynyddu'r cyfleoedd i symud mwy, wedi cael ei ddatblygu. Roedd yr Awdurdod yn rhan o'r gweithdy a sefydlodd y grwpiau gwahanol i ddatblygu'r prosiect. Bydd angen gwaith pellach yn ystod 2018/19 i ddatblygu perthynas

waith agosach gyda'r sector Gofal Craidd, i wneud y gorau o'r gwaith o hyrwyddo'r ymgyrch a'r cyfleoedd i bobl gymryd rhan.

Bydd y cyfarfodydd yn y dyfodol gyda'r Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar gyflawni Cynlluniau Llesiant mabwysiedig y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ogystal â Chynllun Gwelliant a Lles yr Awdurdod.

Amcan Dau: Ymdrin ag canlyniadau anghyfartal o ran **Addysg** er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial unigolion

Man Gweithredu: Bwlch cyflawniad addysgol rhwng y gwahanol grwpiau yn gostwng

Prosiect / Menter / Gweithred	Amserlen	Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y man gweithredu?	Nodweddion a Ddiogelir	Swyddog Arweiniol
<p>Galluogi pob plentyn waeth beth yw ei anabledd / anghenion ychwanegol i allu mynychu cyrsiau dydd a / neu hamdden ym Mhlas Tan y Bwlch gyda'u grwpiau ysgol.</p> <p>Gwneir hyn drwy asesiadau risg cynhwysfawr sy'n cynnwys yr ysgol a'r rhieni a sefydlu cymorth lleol ynghylch gofynion iechyd pan fo angen e.e. meddygon teulu lleol, ambiwlans awyr ac ati.</p>	Parhaus	Cael gwared ar y rhwystrau y mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu er mwyn iddynt gael dysgu am, profi a mwynhau pob agwedd ar y Parc Cenedlaethol.	Anabledd Oed	Swyddogion Addysg

Cynnydd / Diweddariad:

Drwy weithredu'r canllawiau uchod cafodd pob disgybl gyfle i gymryd rhan lawn ymhob gweithgaredd addysgol a gynigiwyd gan yr Awdurdod. Gyda chymorth y Gwasanaeth Wardeiniaid er enghraifft, sicrhawyd fod 4 disgybl

mewn cadair olwyn wedi cael y cyfle i fwynhau Taith Llwybr y Mwynwyr yn ddiogel.

Cafwyd diwrnod arbennig bythgofiadwy wrth i ddisgybl lleol (efo cyflwr *achondroplasia*) fwynhau diwrnod yn yr eira hefo'i gyfoedion.

Trefnwyd fod yna ddisgybl o Ysgol Hafod Lon, Penrhyndeudraeth yn cael y cyfle i fynychu Cwrs ' Profiad yn y Gweithle' hefo staff yr Awdurdod. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan yr ysgol am y ddarpariaeth yr oedd yr Awdurdod wedi ei gynnig. Y gobaith ydi y bydd cyfleoedd o'r fath yn gallu cael eu hailadrodd yn y dyfodol.

Amcan Tri: Ymderin ag anghydraddoldebau mewn **Cyflogaeth a Thâl**

Man Gweithredu: Adnabyddir ac eir i'r afael ag anghydraddoldebau mewn recriwtio, dargadwad (cadw staff), hyfforddiant a phrosesau dyrchafu

Man Gweithredu: Bydd unrhyw fylchau mewn tâl rhwng nodweddion a ddiogelir yn cael eu hadnabod ac eir i'r afael â hwy

Prosiect / Menter / Gweithred	Amserlen	Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y man gweithredu?	Nodweddion a Ddiogelir	Swyddog Arweiniol
Monitro cyfraddau o unigolion o grwpiau a dangynrychiolir sy'n ymgeisio am swyddi gwag.	Blynyddol	Bydd y data a gasglwyd yn hysbysu unrhyw newidiadau i'r Polisi Recriwtio yn y dyfodol, i alluogi aelodau o grwpiau a dangynrychiolir i ymgeisio a chael swyddi gyda'r Awdurdod.	Pawb	Pennaeth Personél
Cynnydd / Diweddariad: Mae data monitro a recriwtio ar gael o dan Adran 7 o'r adroddiad hwn.				
Asesu a monitro'r bwlch tâl rhyw yn flynyddol.	Blynyddol	Bydd y data a gasglwyd yn hysbysu unrhyw newidiadau i'r Polisi Recriwtio yn y dyfodol.	Rhyw	Pennaeth Personél

Cynnydd / Diweddariad:

Yn seiliedig ar gyfraddau canolrif fesul awr gosodwyd gwaelodlin gyda data ar gyfer 31.03.2012 fel y canlynol:

	Dynion	Merched	Holl Staff	Bwlch Tâl Merched / Holl Staff	Bwlch Tâl Merched / Dynion
Llawn Amser	£13.61	£12.77	£12.77	Dim	£0.84
Rhan Amser	£8.00	£8.00	£8.00	Dim	Dim
Holl Staff	£12.77	£8.72	£9.91	£1.19	£4.05

Mae'r data ar gyfer 31.03.2017 wedi'i ddangos isod:

	Dynion	Merched	Holl Staff	Bwlch Tâl Merched / Holl Staff	Bwlch Tâl Merched / Dynion
Llawn Amser	£13.31	£15.05	£13.49	Dim	Dim
Rhan Amser	£8.39	£9.09	£9.09	Dim	Dim
Holl Staff	£12.40	£10.80	£11.62	£0.82	£1.60

Mae'r data ar gyfer 31.03.2018 wedi'i ddangos isod:

	Dynion	Merched	Holl Staff	Bwlch Tâl Merched / Holl Staff	Bwlch Tâl Merched / Dynion
Llawn Amser	£13.45	£15.20	£13.45	Dim	Dim
Rhan Amser	£8.35	£9.21	£9.21	Dim	Dim
Holl Staff	£13.45	£10.43	£12.53	£2.10	£3.02

Tra bod y gymhariaeth aros yn sefydlog rhwng Merched Llawn / Rhan Amser / Yr Holl Staff a Merched / Dynion, mae'r bwlch wrth gymharu â'r draws yr holl staff wedi cynyddu ers y llynedd.

Nid yw dadansoddiad o'r data yn dangos unrhyw dueddiadau - mae'r nifer o staff yn parhau i fod y gyson (2017 = 59M/73D, 2018 + 58M/72D). Mae trosiant staff yn 5.2%.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae cyflogau llywodraeth leol sydd ar waelod y bandiau wedi cael canrannau codiad cyflog uwch er mwyn eu symud tuag at nod y Llywodraeth i gael Cyflog Byw Cenedlaethol o £9 erbyn 2020.

Mae angen cymhwyso'r un cafeat ag o'r blaen, fel Awdurdod bach, gall newid bach yn nifer y staff ar wahanol lefelau effeithio ar y bwlch.

Amcan Pedwar: Ymdrin ag anghydraddoldebau mewn **Diogelwch** personol

Man Gweithredu: Bydd adrodd ar droseddau casineb ac aflonyddwch yn cynyddu a bydd camau yn cael eu cymryd i leihau'r digwyddiadau o droseddau casineb ac aflonyddwch

Prosiect / Menter / Gweithred	Amserlen	Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y man gweithredu?	Nodweddion a Ddiogelir	Swyddog Arweiniol
Gweithio ar y cyd â phartneriaid y Rhwydwaith i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb a'r mecanweithiau adrodd, gan ddefnyddio Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb i ganolbwyntio'r cyhoeddusrwydd. Arweinir y gwaith gan Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa'r Heddlu a Chomisiynydd Troseddu.	Parhaus	Codi ymwybyddiaeth o droseddau casineb a sut i'w adnabod, ynghyd â thynnu sylw at bwysigrwydd adrodd am ddigwyddiadau.	Pawb	Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer

Cynnydd / Diweddariad:

Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb 14 - 21 Hydref 2017
Gwaith partneriaeth yn cael ei arwain gan Heddlu Gogledd Cymru a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

Cytunwyd ar nifer o ddatganiadau i'r wasg a deunyddiau creu cyhoeddusrwydd ar gyfer y gwahanol sefydliadau dan sylw a oedd yn cynnwys ymgyrch ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol. Cafodd cyfweiliad radio ei recordio a'i ddarlledu ar Môn FM yn ystod yr wythnos i hyrwyddo'r digwyddiadau a gweithgareddau a oedd yn cael eu cynnal ar draws y rhanbarth i dynnu sylw at beth yw troseddau casineb, eu heffaith ar gymunedau a'r pwysigrwydd o roi gwybod amdanynt a delio â hwy.

Y tu hwnt i ffiniau'r Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb ei hun, gweithiodd aelodau'r Rhwydwaith Cydraddoldeb y Sector Gyhoeddus yng Ngogledd Cymru yn agos gyda 'Victim Support' o'r Ganolfan Genedlaethol ar

Droseddau Casineb yng Nghymru i sicrhau bod dioddefwyr yn cael y cymorth maen nhw ei angen.

Amcan Pump: Ymdrin ag anghydraddoldebau mewn **Cynrychiolaeth a Llais**

Man Gweithredu: Bydd cyrff sy'n gwneud penderfyniadau yn dod yn fwy cynrychiadol o'r cymunedau a wasanaethir

Man Gweithredu: Ymgynghoriad ac ymgysylltiad yn gwella trwy gryfhau'r cysylltiadau rhwng y Sector Cyhoeddus ac unigolion sy'n cynrychioli pobl leol o bob grŵp wedi'i ddiogelu

Prosiect / Menter / Gweithred	Amserlen	Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y man gweithredu?	Nodweddion a Ddiogelir	Swyddog Arweiniol
Datblygu rhaglen wardeiniaid gwirfoddol yr Awdurdod ymhellach, gan alluogi pobl o bob cefndir ac o grwpiau nodweddion gwarchoddedig i fod yn rhan o waith yr Awdurdod.	Parhaus	Mae gwaith gwirfoddol yn ffordd dda i bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol gymryd rhan, heb ofni bod diffyg profiad neu gymwysterau yn rhwystr.	Pawb	Pennaeth Wardeniaid a Mynediad

Diweddariad / Cynnydd:

Bellach, mae 35 o unigolion yn cymryd rhan yn y Rhaglen Wardeiniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa.

Mae'r niferoedd sydd ar y Rhaglen Wardeiniaid Ifanc, mewn partneriaeth â'r Bartneriaeth Awyr Agored wedi cynyddu hefyd i 12, gyda'u hoedran yn amrywio rhwng 14 a 18 oed.

Mae trafodaethau wedi bod gyda Rheolwr Prosiect Loteri y Carneddau, i ymchwilio i'r potensial i ddefnyddio'r Cynllun Wardeiniaid Ifanc a Gwirfoddol ar gyfer y prosiect.

Cynhaliwyd noson ddathlu ym Mhlas Tan y Bwlch ar y 7fed o Dachwedd 2017, er mwyn cydnabod a diolch i bawb sydd wedi gwirfoddoli.

Prosiect / Menter / Gweithred	Amserlen	Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y man gweithredu?	Nodweddion a Ddiogelir	Swyddog Arweiniol
Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli ymhellach o fewn prosiect Yr Ysgwrn, o Gyfeillion Yr Ysgwrn, canllawiau gwirfoddolwyr a datblygu Fforwm Ieuenctid.	Ail ran o'r prosiect	Mae gwaith gwirfoddol yn ffordd dda i bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol gymryd rhan, heb ofni bod diffyg profiad neu gymwysterau yn rhwystr.	Pawb	Rheolwr Prosiect Yr Ysgwrn Swyddog Datblygu Cynulleidfa

Cynnydd / Diweddariad:

Mae nifer y rhai sy'n gwirfoddoli'n rheolaidd wedi cynyddu i 15. Nid yn unig bod gan y gwirfoddolwyr angerdd am Yr Ysgwrn, ond maen nhw hefyd wedi bod yn meithrin eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o waith ehangach yr Awdurdod trwy fynychu sesiynau hyfforddi ymwybyddiaeth o'r Parc Cenedlaethol, cyfarfodydd a hyfforddiant corfforaethol.

Prosiect / Menter / Gweithred	Amserlen	Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y man gweithredu?	Nodweddion a Ddiogelir	Swyddog Arweiniol
Parhau i weithio'n agos â Chymdeithas Eryri a phartneriaid eraill i ddatblygu diwrnodau prosiectau gwirfoddolwyr penodol yn ystod y flwyddyn.	Parhaus	Mae gwaith gwirfoddol yn ffordd dda i bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol gymryd rhan, heb ofni bod diffyg profiad neu gymwysterau yn rhwystr.	Pawb	Pennaeth Wardeiniaid a Mynediad Pennaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth Pennaeth Busnes Swyddog y Gymuned

Cynnydd / Diweddariad:

Mae perthynas yr Awdurdod gyda Chymdeithas Eryri yn parhau i fod yn glos. Yn ystod 2017/18 trefnwyd 30 o ddyddiau gwirfoddoli. Mae hyn yn golygu bod 409 o ddiwrnodau gwirfoddoli wedi'u cwblhau gan wirfoddolwyr wrth gefnogi gwaith yr Awdurdod megis cynnal a chadw llwybrau, clirio tyfiant rhywogaethau ymledol a chodi sbwriel ar Yr Wyddfa.

Mae gan Blas Tan y Bwlch grŵp bach o wirfoddolwyr hefyd sy'n rhoi help llaw yn y gerddi yn rheolaidd.

Yn ychwanegol, mewn partneriaeth gyda Groundwork Gogledd Cymru, trefnwyd 3 diwrnod o wirfoddoli ar gyfer pobl sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir.

Prosiect / Menter / Gweithred	Amserlen	Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y man gweithredu?	Nodweddion a Ddiogelir	Swyddog Arweiniol
Fforwm Cydraddoldeb Eryri i gyfrannu at yr adolygiadau o Gynlluniau Allweddol y Parc.	2016-2019	Drwy brif ffrydio cydraddoldeb a chynhwysiant cymdeithasol yng ngwaith yr Awdurdod, bydd yn cael effaith gadarnhaol yn yr hirdymor ar strategaethau a pholisïau'r Awdurdod.	Pawb	Swyddog Partneriaeth y Parc Cenedlaethol Pennaeth Polisi Cynllunio Swyddog y Gymuned

Cynnydd / Diweddariad:

Yn ystod y cyfarfod o'r Fforwm Cydraddoldeb a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2017, sefydlwyd is-grŵp o'r Fforwm, gyda'r nod o gwrdd yn rheolaidd er mwyn cynorthwyo'r Rheolwr Partneriaethau gyda'r elfennau cydraddoldeb yng *Nghynllun Eryri*, gan gynnwys hygyrchedd y ddogfen a'r lleoliadau ymgynghori.

Amcan Chwech: Ymdrin ag anghydraddoldebau mewn **Mynediad** at wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd

Man Gweithredu: Bydd mynediad at wybodaeth a chyfathrebu ynghyd â phrofiad y cwsmer yn gwella

Man Gweithredu: Bydd mynediad corfforol at wasanaethau, trafndiaeth, yr amgylchedd adeiledig a manau agored yn gwella

Prosiect / Menter / Gweithred	Amserlen	Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y man gweithredu?	Nodweddion a Ddiogelir	Swyddog Arweiniol
Hyrwyddo llwybrau hygyrch newydd wrth iddynt gael eu datblygu, fel rhan o'r gwaith iechyd a lles ehangach.	Gwaith parhaus	Bydd mynediad i fannau agored ac ystod amrywiol o gyfleusterau hamdden yn cael ei wella.	Pawb	Pennaeth Wardeiniaid a Mynediad

Diweddariad / Cynnydd:

Mae'r gwaith hwn yn rhan o raglen waith barhaus, sy'n parhau o un flwyddyn i'r llall.

Mae gwaith wedi ei gwblhau ar lwybr hygyrch Bala / Llyn Tegid mewn partneriaeth gyda Chyngor Gwynedd, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Tref Y Bala. Mae'r llwybr nawr yn cael ei hyrwyddo ar ein gwefan.

Mae cylchdaith Foel Offrwm wedi cael ei gwblhau, ynghyd â llwybrau Abergwynant a'r gwaith dehongli cysylltiol.

Ymgysylltu ac ymgynghori â Fforymau Mynediad y Gogledd a'r De a grwpiau mynediad perthnasol o gyfnod datblygu unrhyw brosiectau llwybrau troed hygyrch.	Parhaus	Bydd hyn yn sicrhau y bydd materion hygyrchedd yn cael eu hystyried a'u hymgorffori o gyfnod cynnar yn y prosiect.	Anabledd	Pennaeth Wardeiniaid a Mynediad Swyddog Mynediad
---	---------	--	----------	---

Diweddariad / Cynnydd:

Y gwaith yma'n digwydd yn barhaus.

Prosiect / Menter / Gweithred	Amserlen	Sut mae hyn yn cyfrannu tuag at y man gweithredu?	Nodweddion a Ddiogelir	Swyddog Arweiniol
Mae'r Swyddogion Addysg, Wardeiniaid a swyddogion eraill yn ymweld ag ysgolion ac yn rhoi cyflwyniadau rhyngweithiol ar bob agwedd ar y Parc Cenedlaethol sy'n eu cyflwyno i'r ystafell ddosbarth yn yr awyr agored.	Parhaus	Codi ymwybyddiaeth a hysbysu plant, yn enwedig ar gyfer ysgolion mewn ardaloedd trefol ac amddifadedd economaidd nad ydynt yn gallu cael mynediad yn hawdd i gefn gwlad.	Oed	Swyddogion Addysg

Cynnydd / Diweddariad:

Ymgysylltwyd â 86% o ysgolion dros gyfnod o ddwy flynedd, sy'n golygu bod y targed o 100% wedi cael ei fethu. Pryn bynnag, mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud, er gwaethaf fod y swydd Swyddog addysg yn parhau i fod yn wag.

Mae gweithgareddau ymgysylltu wedi cael eu trefnu gan y Wardeiniaid, y gwasanaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth, Yr Ysgwrn a trwy daith Mission: Explore.

5. Hyfforddiant

Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd cwrs Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl ddwywaith. Mae'r cwrs deuddydd dwys, a fynychwyd gan Reolwyr a Goruchwylwyr gan fwyaf (ond nid yn gyfan gwbl), wedi helpu i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o wahanol faterion iechyd meddwl.

Mae problemau iechyd meddwl yn gyffredin iawn, gydag un allan o bedwar o bobl yn cael rhyw fath o brofiad problem iechyd meddwl mewn unrhyw flwyddyn. Mae iselder, straen a phryder er enghraifft, yn broblemau eang sy'n effeithio miloedd o bobl ar hyd a lled Cymru. Er gwaethaf hyn, nid yw pobl wastad yn ddigon hyderus i drafod iechyd meddwl neu i gynnig y gefnogaeth gychwynnol mae pobl ei angen. Roedd y cwrs hwn yn rhoi'r sgiliau a'r hyder i'r mynychwyr drafod materion iechyd meddwl a chynnig cymorth. Mae'r hyfforddiant wedi galluogi'r mynychwyr i adnabod yr arwyddion a'r symptomau o broblemau iechyd meddwl, ac yn hanfodol, sut i dywys person tuag at y cymorth a'r gefnogaeth briodol.

Mynychodd cyfanswm o 25 aelod o staff y cwrs.

6. Asesiadau Effaith Cydraddoldeb

Mae gan yr Awdurdod systemau sefydledig i asesu effaith unrhyw strategaethau diwygiedig, cynlluniau, gweithdrefnau, arferion neu unrhyw benderfyniadau mawr y mae'n eu gwneud. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd 50 o sgriniadau effaith cydraddoldeb, ac o ganlyniad i hynny roedd angen i 5 fynd ymlaen i gynnal asesiad effaith llawn.

Allan o'r 50 o sgriniadau, roedd 43 yn berthnasol i'r cynigion a roddwyd ger bron yn Sialens Ariannol yr Awdurdod 2018-20. Nid yw'r holl gynigion ar gyfer cynyddu incwm a gwneud toriadau wedi cael eu gweithredu eto. O ganlyniad, mi fydd asesiadau pellach yn cael eu cynnal wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

Gwnaethpwyd y 7 sgriniad arall ar Gynllun Partneriaeth Yr Wyddfa, Strategaeth Wirfoddoli'r Awdurdod ac un ar bob o Amcanion Lles newydd yr Awdurdod.

Isod mae crynodeb byr o bob un o'r sgriniadau asesu effaith a aeth ymlaen i gael asesiadau effaith llawn.

1. Eiddo – Cau Toiledau Morfa Dyffryn
Darganfuwyd bod y gost o redeg y toiledau cyhoeddus hyn yn waharddol dros y tymor hir. Mae'r incwm a wnaed o'r ffioedd parcio yn sylweddol llai na'r gost o gynnal a chadw'r cyfleuster hwn, gan fod y nifer o ddefnyddwyr yn gyffredinol yn isel.

Er bod cau cyfleusterau cyhoeddus yn golled i bawb, mae yna botensial iddo gael effaith anghyfartal ar rai grwpiau o bobl fel pobl anabl, pobl hŷn a rhieni, oherwydd mae gan rai fwy o angen am gyfleusterau o'r fath pan fyddant allan.

Ymgwymerwyd ag ymgynghoriad gyda staff, Undebau, Cynghorau Cymuned a busnesau lleol, ac o ganlyniad fe wnaeth nifer o'r ymatebwyr wrthwynebu'r cynnig i gau'r toiledau. Rhoddwyd ystyriaeth i opsiynau amgen, fel trosglwyddo'r cyfleuster drosodd i fenter gymdeithasol, partneriaeth neu gyngor cymuned, ond ni chafwyd unrhyw ddi-ddordeb gan fod y cynnig yn ariannol gyfyngol. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i godi arian am ddefnyddio'r toiledau, ond oherwydd y nifer fechan o ddefnyddwyr, ni fuasai hyn yn cynhyrchu digon o incwm i gynnal y safle.

Oherwydd lleoliad cyfleusterau cyhoeddus eraill gerllaw ynghyd â'r safleoedd gwersylla a charafanio cyfagos sydd â chyfleusterau eu hunain (y preswylwyr o'r safleoedd hyn yw'r mwyafrif o'r ymwelwyr i'r traeth), daethpwyd i'r canlyniad fod yr effaith cyffredinol yn un isel.

2. Addysg a Chyfathrebu - Newid darpariaeth ar gyfer Addysg

Y cynnig gerbron oedd ailwampio'r swydd Swyddog Addysg (sydd ar hyn o bryd yn wag), trwy newid yr oriau i weithio yn ystod y tymor ysgol gan ddefnyddio oriau blynyddol. Gan fod y cynnig hwn yn cynnwys y potensial i effeithio ar bobl ifanc yn bennaf, ymgwymerwyd ag asesiad effaith llawn.

Darganfuwyd y byddai'n annhebygol y byddai unrhyw effaith ar bobl ifanc. Am fod oriau'r swydd yn cael eu newid i weithio yn ystod y tymor ysgol, dyma'r adeg pan fo'r bobl ifanc yn derbyn y gwasanaeth, felly ni fydd unrhyw newid i ddarpariaeth y gwasanaeth.

Gan fod y swydd yn wag ar hyn o bryd, ni fydd yn cael effaith ar unrhyw unigolyn. Efallai bod gweithio yn ystod y tymor yn gynnig mwy deniadol i rieni sy'n gweithio ac sydd â chyfrifoldebau gofal plant, gan fod y trefniant hwn yn cynnig llawer mwy o hyblygrwydd. Roedd y cynnig hwn felly â'r potensial i gael effaith gadarnhaol ar y niferoedd o ymgeiswyr.

3. Wardeiniaid a Mynediad – Defnydd cerbydau rhwng y cartref a'r gwaith

Y cynnig hwn yw gwrthdroi trefniant hanesyddol lle mae rhai staff (Wardeiniaid yn bennaf) yn cael gwneud defnydd personol o'u cerbydau gwaith. Mae'r cynnig hwn yn effeithio ar wrywod yn unig, gan fod y staff hynny sydd hefo cerbydau gwaith sydd yn cael ei ddefnyddio i fynd adref, yn ddynion i gyd ar hyn o bryd.

Mae'r sefyllfa bresennol fel ag y mae hi, yn annheg gan fod yn rhaid i'r rhan fwyaf o'r staff ariannu eu trafndiaeth yn ôl a blaen i'r gwaith eu hunain. Ar hyn o bryd, gan nad oes unrhyw ferched sy'n aelodau o staff â cherbydau y gallant wneud defnydd personol ohonynt, mae'r trefniant yn cael effaith anghyfartal ar fenywod.

Bydd y cynnig nid yn unig yn sicrhau arbedion sylweddol, ond mi fydd yn unioni'r cydbwysedd rhwng yr holl staff, gan sicrhau fod pawb yn cael eu trin yn gyfartal. Daeth yr asesiad i'r casgliad y buasai effaith byr dymor cychwynnol ar yr aelodau o staff hynny sydd gyda cherbydau, oherwydd bydd yn rhaid iddynt wynebu costau ychwanegol trwy ariannu eu trafndiaeth ei hunain yn ôl a blaen i'r gwaith. Fodd bynnag, teimlwyd y buasai'r effaith tymor byr cychwynnol hwn yn gallu cael ei amsugno dros amser.

4. Wardeiniaid a Mynediad – Lleihau Niferoedd y Wardeiniaid

Mae'r cynnig yn seiliedig ar wneud llai o waith hawliau tramwy cyhoeddus, a fydd yn golygu lleihad cyfatebol yn y nifer o Wardeiniaid. Mi fydd y cynnig yn golygu diswyddiad. Roedd y cynnig gwreiddiol yn mynd i effeithio a'r ddau aelod o staff, fodd bynnag derbyniwyd arian cyllido ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, sy'n golygu bod y nifer yn nawr wedi'i leihau i un aelod o staff.

Gan fod y staff sy'n cael eu heffeithio i gyd yn wrywod, ymgwymerwyd ag asesiad effaith llawn. Cynhaliwyd ymgynghoriad llawn a rhoddwyd mesuriadau lliniaru yn eu lle cyn belled â phosib i leihau'r effaith ar yr aelod o staff a effeithiwyd ynghyd â derbynwyr y gwasanaeth.

5. Wardeiniaid a Mynediad - Lleihau Cefnogaeth Staff Ystadau

Mae'r cynnig (fel uchod) wedi cael ei sefydlu ar wneud llai o waith hawliau tramwy cyhoeddus, a fydd yn golygu lleihad cyfatebol yn y nifer o Weithwyr Stad. Mi fydd y cynnig yn golygu diswyddiad ac yn effeithio ar un aelod o staff.

Gan fod y staff sy'n cael eu heffeithio i gyd yn wrywod, ymgwymerwyd ag asesiad effaith llawn. Cynhaliwyd ymgynghoriad llawn a rhoddwyd mesuriadau lliniaru yn eu lle cyn belled â phosib i leihau'r effaith ar yr aelod o staff a effeithiwyd ynghyd â derbynwyr y gwasanaeth.

7. **Gwybodaeth Cyflogaeth**

Mae'r ddyletswydd yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol am gyflogaeth:

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y:

- Bobl a gyflogir gan yr Awdurdod ar 31 Mawrth bob blwyddyn yn ôl nodwedd a ddiogelir
- Gwrywod a benywod a gyflogir, yn ôl:
 - Swydd
 - Graddfa (lle bo systemau graddio mewn lle)
 - Tâl
 - Math o gontract (gan gynnwys contractau parhaol a thymor penodol)
 - Patrymau gwaith (gan gynnwys amser llawn, rhan amser a phatrymau gwaith hyblyg eraill)

- Pobl sydd wedi ymgeisio am swyddi gyda'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf
- Gweithwyr sydd wedi ymgeisio i newid swydd o fewn yr Awdurdod, gan nodi sawl un a fu'n llwyddiannus â'u cais a sawl un a oedd wedi methu
- Gweithwyr sydd wedi ymgeisio am hyfforddiant a sawl un a oedd wedi llwyddo â'u cais
- Gweithwyr a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant
- Gweithwyr a fu'n ymwneud â gweithdrefnau cwyno, un ai fel achwynydd neu fel un y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn ef / hi
- Gweithwyr a fu'n destun gweithdrefnau disgyblu
- Gweithwyr sydd wedi gadael eu swyddi â'r Awdurdod

Rhaid cyflwyno'r holl wybodaeth uchod ar gyfer pob un o'r grwpiau unigol a ddiogelir. Yr eithriad i'r gofyniad hwn yw'r data am swyddi, graddfa, tâl, math o gontract a phatrwm gwaith - dim ond ei ddadansoddi mewn perthynas â benywod a gwrywod yn unig sydd ei angen bryd hynny.

Pobl a gyflogir gan yr Awdurdod ar 31 Mawrth bob blwyddyn yn ôl nodwedd a ddiogelir

Cyfanswm y gweithwyr ar 31 Mawrth 2018 = 130

Proffil oedran

24 ac oddi tanodd	2
25 – 34	22
35 – 44	26
45 – 54	41
55 – 64	35
65 a throsodd	4

Dosbarthiad Benywod / Grywod

Benywod	58
Grywod	72

Mae 1% o'r staff wedi datgan eu bod yn anabl a / neu gyda nam.

Roedd 2 aelod o staff ar absenoldeb mamolaeth.

O fewn yr Awdurdod, mae'r staff sydd wedi datgan eu tarddiad ethnig yn disgyn o fewn y categori Gwyn Cymreig, ac nid oes unrhyw un ohonynt o'r prif grwpiau ethnig eraill (Cymysg, Asiaidd, Du neu Dsieineaidd).

Yn sgil y nifer isel o weithwyr, ni chyhoeddir yr wybodaeth yn fanylach er mwyn diogelu hunaniaeth yr unigolion.

Y gwrywod a'r benywod a gyflogir, yn ôl:

- Swydd

- Graddfa (lle bo systemau graddio mewn lle)
- Tâl
- Math o gontract (gan gynnwys contractau parhaol a thymor penodol)
- Patrwm gwaith (gan gynnwys amser llawn, rhan amser a phatrymau gwaith hyblyg eraill)

Mae'r tabl nesaf yn dangos dosbarthiad gwrywod a benywod a gyflogir yn ôl graddfa, patrwm gwaith a'r math o gontract ar 31.03.2018 (mae gan yr Awdurdod nifer o deitlau swydd gwahanol o fewn y graddfeydd):

		Patrwm Gwaith						Math o Gontract					
		Amser llawn		Rhan amser		Hyblyg		Parhaol		Dros Dro		Tymor Penodol	
Graddfa	Tâl/Awr	B	G	B	G	B	G	B	G	B	G	B	G
2	£8.19	0	1	9	6	0	0	7	4	2	3	0	0
3	£8.54	0	0	3	2	0	0	3	2	0	0	0	0
4	£9.21	1	3	11	2	0	0	11	5	0	0	1	0
5	£10.43	3	10	3	1	0	1	4	12	0	0	2	0
6	£11.74	1	8	0	0	0	0	1	8	0	0	0	0
7	£13.45	4	13	1	0	2	0	6	13	0	0	1	0
8	£15.20	6	6	0	1	1	1	5	8	0	0	2	0
9	£16.38	1	6	0	0	1	1	2	6	0	0	0	1
10	£17.33	4	1	0	0	1	0	4	1	0	0	1	0
11	£18.37	2	1	1	0	0	0	3	1	0	0	0	0
12	£19.33	2	2	0	0	1	0	3	2	0	0	0	0
13	£20.30	0	3	0	0	0	0	0	3	0	0	0	0
Prif Swyddog - Cyfarwyddwr	£30.74	0	2	0	0	0	0	0	2	0	0	0	0
Prif Swyddog - Prif Weithredwr	£42.84	0	1	0	0	0	0	0	1	0	0	0	0

Pobl sydd wedi ymgeisio am swyddi gyda'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

Roedd 51 o ymgeiswyr wedi llenwi ffurflenni monitro.

Tarddiad Ethnig

- 48 Gwyn
- 0 Cymysg
- 0 Asiaidd, Asiaidd Prydeinig, Asiaidd Cymreig, Asiaidd Saesneg, Asiaidd Albanaidd
- 0 Du, Du Prydeinig, Du Saesneg, Du Albanaidd, Du Cymreig
- 0 Tsieineaidd, Tsieineaidd Prydeinig, Tsieineaidd Saesneg, Tsieineaidd Albanaidd, Tsieineaidd Cymreig neu Grŵp Ethnig Arall
- 3 Dim ymateb

Cenedl

19 Gwryw
29 Benyw
3 Dim ymateb

Anabledd

2 ymgeiswyr gyda nam yr hoffent roi gwybod amdano

Gweithwyr sydd wedi ymgeisio i newid swydd o fewn yr Awdurdod, gan nodi sawl un a oedd yn llwyddiannus â'u cais a sawl un a oedd wedi methu

	Ceisiadau	Penodiadau
Gwryw	3	1
Benyw	5	3
Cyfanswm	8	4

Gweithwyr sydd wedi ymgeisio am hyfforddiant a sawl un a oedd wedi llwyddo â'u cais

Roedd ceisiadau a hyfforddiant a fynychwyd ar 57 achlysur gan fenywod a 113 gwaith gan wrywod (roedd rhai aelodau o staff wedi ymgeisio a bod yn bresennol ar fwy nag un achlysur.)

Gweithwyr a fu'n ymwneud â gweithdrefnau cwyno, un ai fel achwynydd neu fel un y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn ef / hi

Roedd 1 cwyn yn ystod y cyfnod hwn yn ymwneud â 1 wryw.

Gweithwyr a fu'n destun gweithdrefnau disgyblu

Roedd 2 gweithiwr (gwryw) yn destun gweithdrefnau disgyblu

Gweithwyr sydd wedi gadael eu swyddi â'r Awdurdod

Benyw 3
Gwryw 4
Cyfanswm 7